Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd Plismona (PALG)

Pencadlys yr Heddlu
12 Mehefin 2019

COFNODION

Yn bresennol

Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Lee Jones – Cadeirydd (LJ)	Prif Weithredwr (Interim)
Sarah Mahon (SM)	Swyddog Ymgysylltu a Sicrwydd
Jackie Trow (JT)	Arweinydd Strategol (Ansawdd, Safonau a Chydymffurfio)

Heddlu De Cymru

Y Prif Uwch-arolygydd Phillip Ashby (PA)
Y Prif Arolygydd John Wainwright (JW)

Aelodau PALG

Alex Drummond (AD)	Cynghorydd Annibynnol
Rebecca Frohwein (RF)	Hafal
Tony Hendrickson (TH)	Y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig
Jasmine Jones (JJ)	Sipsiwn a Theithwyr Cymru
Klarina Klepere	Race Equality First
Steve Warner (SW)	Gofal
Melissa Wood (MW)	Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Ymddiheuriadau

Hannah Jenkins-Jones

1. Cofnodion a chamau gweithredu

Gofynnodd LJ i'r aelodau adolygu'r cofnodion a chodi unrhyw wallau. Dywedodd TH nad oedd ATAL yn cefnogi'r mewnbwn ar ysgolion a ddarperir gan y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig a gofynnodd am i hyn gael ei unioni.

Trafodwyd camau gweithredu'r cyfarfod blaenorol a darparwyd y diweddariadau canlynol:

Rhif	Cam Gweithredu	Arweinydd	**Diweddariad**
1	Rhannu dolenni i'r ddogfen ganllaw ar Waith Rhyw	Sarah Mahon	I'w dosbarthu yn dilyn y cyfarfod.
2	Archwilio'r posibilrwydd o sefydlu is-grwpiau yn y dyfodol lle y bo'n berthnasol	Hannah Jenkins-Jones	Dywedodd LJ y byddai sesiynau is-grwpiau ar wahân yn cael eu trefnu fel y bo'n briodol ac y byddai'r aelodau'n cael gwybod am hyn.
3	Cael gafael ar y data sydd ar gael ar weithwyr rhyw	Mark Vaughan	Dywedodd LJ y byddai tîm y Comisiynydd yn rhannu'r ymchwil â

	ledled De Cymru.		PALG cyn gynted ag y daw i law. Ar ôl i'r data ddod i law a chael eu hadolygu, gallai hyn hefyd fod yn fater y bydd PALG yn ei ystyried eto yn y dyfodol.
4	Rhannu'r Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd terfynol	Hannah Jenkins-Jones	Roedd diwygiadau terfynol yn cael ei wneud o'r Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd. Y bwriad oedd lansio'r cynllun yn yr haf. Byddai rhagor o wybodaeth am hyn yn cael ei rhannu â PALG maes o law.

2. Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd – Diweddariad ar Droseddau Casineb

Rhoddodd LJ wybod i'r aelodau fod cyfarfod 'Craffu ac Atebolrwydd', wedi'i gadeirio gan y Dirprwy Gomisiynydd, wedi cael ei gynnal ym mis Mai. Roedd y gwaith craffu yn y cyfarfod wedi canolbwyntio'n bennaf ar droseddau casineb. Cyfeiriodd LJ at bwysigrwydd rôl PALG ym model craffu'r Comisiynydd a dywedodd y byddai adroddiadau ar ganfyddiadau ac argymhellion craffu o gyfarfodydd y bwrdd yn cael eu cyflwyno i PALG.

Diolchodd LJ i aelodau PALG am gymryd rhan yng ngwaith paratoi'r Comisiynydd ar gyfer yr arolwg craffu hwn ac am eu hadborth agored a gonest. Roedd barn aelodau PALG, yn ogystal â lleisiau a phrofiadau'r dioddefwyr, wedi ychwanegu gwerth gwirioneddol at yr ymchwil a gasglwyd. Yn dilyn y cyfarfod craffu, cytunwyd ar argymhellion, a fyddai'n ceisio ysgogi newid cadarnhaol i Heddlu De Cymru yn y meysydd a nodwyd.

Rhoddodd SM drosolwg o'r broses ymchwil a ddefnyddiwyd ar gyfer y broses craffu ar droseddau casineb, a oedd wedi cynnwys barn unigolion a oedd wedi dioddef achos o drosedd casineb/achos a oedd yn gysylltiedig â chasineb a rhoi gwybod amdano i Heddlu De Cymru, yn ogystal â barn asiantaethau partner a swyddogion troseddau casineb. Roedd yn amlwg bod nifer o faterion yn codi'n gyson.

Nodwyd bod nifer o ddioddefwyr yn teimlo nad oedd swyddogion bob amser yn deall effeithiau eu profiadau ac yn sylweddoli arnynt, a'i bod yn hanfodol rhoi hyfforddiant arbenigol i wella dealltwriaeth swyddogion o'r amgylchiadau cysylltiedig â chasineb a oedd yn cael eu profi gan bobl â nodweddion gwarchodedig. Rhoddodd JW ddiweddariad cryno mewn cysylltiad â'r pecyn hyfforddi a oedd yn cael ei ddatblygu gan y Coleg Plismona, a fyddai'n cael ei rannu â heddluoedd maes o law. Rhoddodd LJ wybod i'r grŵp y byddai'r pecyn hyfforddi yn cael ei rannu ag aelodau PALG er mwyn cael eu barn a'u mewnbwn.

Nododd SM bryderon dioddefwyr mewn cysylltiad â rhoi gwybod i'r heddlu. Dywedodd y mwyafrif o ddioddefwyr eu bod yn poeni'n bennaf am beidio â chael eu trin o ddifrif wrth roi gwybod i'r heddlu, neu y gallai gwneud hynny waethygu'r problemau dan sylw. Roedd y rhan fwyaf o'r dioddefwyr y gwnaethom siarad â nhw wedi profi nifer o ddigwyddiadau ac roedd y problemau wedi gwaethygu cyn iddynt benderfynu rhoi gwybod i'r heddlu.

Nododd dioddefwyr nifer o rwystrau o ran cyfathrebu hefyd. Roedd hyn yn cynnwys peidio â theimlo'n gyfforddus ynghylch rhoi gwybod i'r heddlu am ddigwyddiad oherwydd anallu i ddarllen nac ysgrifennu, gydag ofnau am ddatgelu'r ffaith hon i'r heddlu wrth roi datganiad. Mynegodd dioddefwyr eraill bryderon am roi gwybod i'r heddlu oherwydd bod ganddynt anabledd dysgu neu nam ar y lleferydd.

Dywedodd SM wrth y grŵp fod y wybodaeth a'r farn a gasglwyd gan dîm y Comisiynydd wedi cael eu croesawu gan yr heddlu a'u bod wedi sicrhau bod modd trafod pwysigrwydd cynnwys profiadau byw a 'llais y dioddefwr' bob amser wrth hyfforddi, darparu gwasanaethau a chyfathrebu. Cytunwyd ar gyfres o argymhellion erbyn hyn, a oedd wedi cael eu categoreiddio'n fras mewn tri maes penodol: cyfathrebu a hyfforddiant mewnol, cyfathrebu a chyhoeddusrwydd allanol, a darparu gwasanaethau. Dros y misoedd i ddod, byddai tîm y Comisiynydd yn gweithio gyda'r heddlu i roi'r argymhellion ar waith.

Gorffennodd SM drwy ofyn i aelodau PALG am eu barn mewn cysylltiad â'r wybodaeth. Cyfeiriodd RF at enghraifft yn yr adroddiad, lle mynegodd dioddefwr bryder mewn cysylltiad â mynd â'i eiddo personol at ddibenion tystiolaeth, heb rybudd. Rhannodd RF ei phryderon mewn cysylltiad â'r broses casglu tystiolaeth a chyfeiriodd at brofiad personol o geisio adhawlio eiddo personol yr aed ag ef at ddibenion tystiolaeth. Nododd RF yr anawsterau o lywio eich ffordd drwy systemau'r heddlu nad oedd yn ymddangos fel pe baent yn 'siarad â'i gilydd' a'r gwallau yn y wybodaeth a ddarparwyd gan yr heddlu, a oedd yn ymwneud ag adhawlio ei heiddo personol. Nodwyd hefyd y byddai mwy o waith i godi ymwybyddiaeth yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei groesawu er mwyn helpu i gyfeirio dioddefwyr at yr unigolyn cywir/adran gywir. Trafododd y grŵp bwysigrwydd safonau ansawdd wrth oruchwylio'r wybodaeth a gaiff ei hanfon at ddioddefwyr a'r cyfrifoldeb am oruchwylio systemau'r heddlu er mwyn sicrhau bod y data wedi'u cysylltu.

Cyfeiriodd PA at adborth dioddefwyr ynghylch eu diffyg hyder i roi gwybod am drosedd casineb, gan ddweud wrth y grŵp fod Heddlu De Cymru wedi rhoi cynnig ar byrth gwahanol er mwyn annog pobl i gyflwyno adroddiadau. Roedd hyn wedi cynnwys cyfranogiad trydydd partïon. Fodd bynnag, roedd ennyn hyder y cyhoedd i roi gwybod i'r heddlu yn broblem o hyd. Dywedodd PA fod yr heddlu, fel rhan o adolygiad mewnol, wedi buddsoddi mewn tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant erbyn hyn, a fyddai'r mynd â'r agenda hon rhagddi yn y dyfodol.

Dywedodd PA wrth y grŵp am y prosesau craffu mewnol a oedd yn cael eu cynnal gan yr heddlu. Roedd y rhain yn cael eu defnyddio er mwyn adolygu data troseddau casineb yn agos, yn benodol er mwyn enghreifftiau anghymesur. Hefyd, croesawodd PA y cyfle i aelodau PALG gyflwyno safbwynt beirniadol.

Cyfeiriodd AD at y profiadau a'r farn gadarnhaol a gasglwyd oddi wrth ddioddefwyr trawsrywiol, a geisiwyd drwy fforwm ar-lein cyn y cyfarfod. Nododd AD fod nifer o unigolion wedi mynegi eu bod wedi cael gwasanaeth cadarnhaol gan yr heddlu. Dywedodd TH ei fod hefyd yn teimlo bod yr heddlu wedi rheoli'r digwyddiad diweddar yn Cathays yn dda, yn benodol drwy gyfathrebu'n onest. Nododd y grŵp yr arferion da a ddangoswyd gan yr heddlu yn ddiweddar. Trafododd y grŵp bwysigrwydd tynnu sylw at enghreifftiau mor gadarnhaol a'u rhannu â'r cyhoedd, er mwyn helpu i gynyddu hyder pobl i roi gwybod i'r heddlu.

Trafododd y grŵp rôl y Swyddogion Troseddau Casineb a hirhoedledd y rôl. Nododd aelodau PALG bryder o ran trosiant cyflym y swyddogion ac effaith hyn ar feithrin ymddiriedaeth cymunedau. Nododd JJ ragdybiaethau aelodau'r gymuned sipsiwn a theithwyr, a oedd yn credu bod swyddogion yn cael eu symud ar ôl sefydlu cydberthynas â nhw. Roedd teimlad cryf ymysg y gymuned bod y penderfyniad hwn 'yn cael ei wneud iddynt' er mwyn atal cydberthnasau rhag cael eu meithrin â'r gymuned.

Nododd PA fod yr heddlu'n ceisio cynnal sefydlogrwydd a chysondeb yn y rolau hyn lle y bo'n bosibl ond roedd natur newidiol y sefydliad yn gwneud hyn yn anodd ar adegau. Dywedodd JJ wrth y bwrdd fod yr heddlu yn ceisio taro cydbwysedd rhwng meithrin a chynnal cydberthnasau cadarn â'r gymuned, ac ar yr un pryd sicrhau bod yr unigolion yn y rôl yn cyflwyno dulliau a syniadau newydd er mwyn gwneud y rôl mor effeithiol â phosibl. Y

peth pwysig oedd sicrhau bod trosglwyddiadau yn cael eu hesbonio'n glir i'r gymuned er mwyn ceisio cynnal cysondeb ac ymddiriedaeth.

Nododd AD bwysigrwydd plismona ar sail tystiolaeth ac y byddai'n werth chweil buddsoddi mewn ymchwil a fyddai'n archwilio'r cysylltiadau a'r cydberthnasau â'r gymuned ac ansawdd y wybodaeth a oedd yn cefnogi penderfyniadau gorfodi. Nododd LJ fod gwaith ymchwil wrthi'n cael ei wneud ar y cyd â phrifysgolion ar hyn o bryd, ond y byddai hyn yn waith diddorol i'w ystyried ar gyfer y dyfodol.

Byddai'r grŵp yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau mewn cysylltiad ag argymhellion y broses craffu ar droseddau casineb.

3. Cwynion gan y Cyhoedd

Rhoddodd JT drosolwg i'r grŵp o Adran Safonau Proffesiynol Heddlu De Cymru a'i rôl wrth ymchwilio i gwynion yn erbyn swyddogion a staff yr heddlu. Trafododd JT y gwahaniaeth rhwng rôl yr Adran Safonau Proffesiynol a rôl y Comisiynydd wrth ymdrin â chwynion a rhoddodd drosolwg o broses gwyno Heddlu De Cymru a'r ffyrdd amrywiol o wneud cwynion. Dywedodd JT fod cwynion, ar ôl iddynt gyrraedd yr heddlu, yn cael eu cyflwyno i hyb yr Adran Safonau Proffesiynol drwy system brysbennu. Yna byddent yn cael eu hymchwilio yn gymesur â'u difrifoldeb.

Dywedodd JT fod data'n dangos bod dynion ifanc o bob cefndir ethnig yn fwy tebygol o gael eu harestio, ond eu bod yn llai tebygol o wneud cwyn i Heddlu De Cymru. Nododd JT hefyd nad oedd yr heddlu wedi cael unrhyw gwynion yn ymwneud â stopio a chwilio. Dywedodd JT, gan mai prin oedd y dystiolaeth i gefnogi bod dim cwynion yn adlewyrchu gwasanaeth cadarnhaol, fod yr heddlu yn awyddus i ymgysylltu â chymunedau er mwyn deall y rhwystrau posibl rhag gwneud cwyn, ac ar yr un pryd godi ymwybyddiaeth pobl o'u hawliau i wneud cwyn.

Er mwyn helpu i nodi rhwystrau posibl a chyflwyno awgrymiadau ar gyfer goresgyn problemau, gofynnodd JT i aelodau PALG gymryd rhan mewn sesiwn ryngweithiol mewn grwpiau bach, gan ddefnyddio eu gwybodaeth am y gymuned a'u profiad ohono i ateb cyfres o gwestiynau. Gofynnwyd i'r aelodau ysgrifennu eu hadborth mewn grwpiau a chyflwyno adroddiad i'r grŵp cyfan.

Trafododd y grŵp y ffaith ei bod yn bwysig i unigolion ddeall eu hawliau wrth gael eu harestio er mwyn deall yn glir a oeddent wedi cael eu trin yn anghymesur ai peidio. Roedd problemau eraill yn cynnwys y ffaith bod y system gwyno rhy gymhleth a bod angen cael proses gryno a syml. Cyfeiriodd y grŵp at system gwyno'r Ombwdsmon, a oedd yn nodi'r canlyniadau disgwyliedig yn glir ar ddechrau'r broses o wneud cwyn er mwyn helpu i reoli disgwyliadau. Dywedodd JJ y byddai aelod o'r gymuned sipsiwn a theithwyr yn annhebygol o gwyno pe bai ei achos yn weithredol o gyd, gan y byddai'n poeni am ddial a'r effaith y byddai'n ei chael ar ei achos.

Trafododd y grŵp ddulliau cyfathrebu amrywiol a fyddai'n helpu i roi gwybod i'r cyhoedd am y system gwyno. Dywedodd JJ fod y gymuned sipsiwn a theithwyr yn benodol yn defnyddio YouTube a Facebook yn rheolaidd.

Dywedodd JW wrth y grŵp nad oedd unrhyw hyfforddiant penodol i swyddogion ar ymdrin â chwynion ar hyn o bryd. Awgrymodd JW y gallai'r heddlu ystyried cynnwys ymdrin â chwynion fel rhan o hyfforddiant rhingyll, er mwyn grymuso a gwella sgiliau yn y maes hwn.

Diolch JT i aelodau PALG am rannu eu barn a nododd y byddai'r holl adborth ysgrifenedig yn cael ei goladu mewn adroddiad a'i rannu â nhw yn y cyfarfod nesaf, yn ogystal â'r Adran Safonau Proffesiynol.

4. Unrhyw Fater Arall

Dywedodd SW fod Gofal yn dal wrthi'n ail-frandio a bod hyn wedi cael ei ohirio tan fis Mehefin. Byddai diweddariad yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf.

Nododd JJ y byddai diwrnod agored ar Safle Shirenewton ar 28 Mehefin.

Dywedodd LJ wrth y grŵp fod tîm y Comisiynydd wrthi'n ystyried ehangu aelodaeth y grŵp. Byddai diweddariad arall yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf.

Tabl Camau Gweithredu

Cam Gweithredu	Disgrifiad	Unigolyn sy'n Gyfrifol
1	Coladu'r adborth ar gwynion a'i rannu â PALG a'r Adran Safonau Proffesiynol	Jackie Trow